# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Mawrth 2021

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, P Cockeram, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman, D Davies and M Rahman

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr G Giles

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Cynghorydd G Giles.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y cabinet ar 22 Chwefror fel rhai cywir.

4 **Polisi Tâl a Gwobrwyo**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr Adroddiad i'r Cabinet i'w ystyried. Yr oedd Polisi Tâl a Gwobrwyo'r Cyngor i'r gweithlu yn adroddiad blynyddol yr oedd angen i'r Cyngor ei fabwysiadu. Yr oedd y polisi yn gosod allan y mecanweithiau mewnol o ran talu swyddogion y Cyngor ac yn gwneud darpariaeth am unrhyw newidiadau ers ei fabwysiadu ddiwethaf.

Cymeradwywyd y polisi ddiwethaf ym mis Tachwedd 2020 ac nid oedd unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig iddo eleni. Fodd bynnag, tynnodd yr Arweinydd sylw at y bwlch tâl blynyddol rhwng y rhywiau fyddai hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd fod y bwlch tâl cymedrig wedi lleihau am yr ail flwyddyn i 1.92% o 3.6% llynedd.

Yng Nghyfarfod y Cabinet ym mis Tachwedd, adroddwyd fod y bwlch tâl cymedrig am 2019 wedi cau yn gyfan gwbl, gan i ddadansoddiad o'r data ddangos fod pwynt cymedrig tâl fesul awr yr un fath i ddynion a menywod. Bu newid bychan i hyn, ac yr oedd blwch tâl cymedrig o 0.57% am 2020.  Mae bwlch tâl y Cyngor rhwng y rhywiau yn dal i gymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru a'r DU o 17%, ond byddai Casnewydd yn dal ati i ddileu'r bwlch tâl rhwng dynion a menywod a gyflogir gan y Cyngor.

Yr oedd y Cyngor wedi ymrwymo i gynnal archwiliadau tâl cyfartal bob tair blynedd. Byddai hyn yn cael ei wneud unwaith i'r bwlch tâl rhwng y rhywiau am 2021 gael ei sefydlu.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

Nododd y Cynghorydd Mayer y cynnydd da ar y bwlch tâl rhwng y rhywiau a'r cyflog byw gwirioneddol, oedd yn rhan o bolisi'r Cyngor, a mawr angen amdano. Yng ngoleuni'r toriadau dros y ddegawd ddiwethaf, gwnaeth y cyngor yn dda iawn i ymdrin â'r bwlch tâl rhwng y rhywiau a chynnal cyflogau'r staff yn ystod yr anawsterau o ran amodau tâl.

Canmolodd y Cynghorydd Rahman yr Aelod Cabinet, cydweithwyr a swyddogion am leihau'r bwlch tâl. Yr oedd yn werth nodi mai gan Gyngor Dinas Casnewydd  yr oedd un o'r bylchau tâl lleiaf rhwng y rhywiau o gymharu â'r rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru. Yr oedd hefyd yn cymharu'n ffafriol a'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17%, ac o ystyried mai Cyngor Dinas Casnewydd oedd un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghasnewydd, byddai'n duedd gadarnhaol i fusnesau eraill. Yr oedd angen cyflog byw gwirioneddol i holl drigolion y wlad yn ogystal â Chasnewydd.

Penderfyniad:

Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Tâl a Gwobrwyo a gyfoeswyd er mwyn cwrdd â'r gofyniad statudol am ddatganiad polisi tâl i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi gan y Cyngor bob blwyddyn.

## 5 Papur Gwyn LlC ac Ymgynghoriad - Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i Aelodau'r Cabinet. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar *Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth* ac yr oedd yn ymgynghori ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth newydd i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyrraedd y weledigaeth a osodir allan yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Fel aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, yr oedd yn bwysig i'r Cyngor gyfrannu at yr ymgynghoriad fyddai'n helpu i lunio a datblygu'r trefniadau partneriaeth yn y dyfodol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Bu cryn gynnydd wrth gyflwyno gwasanaethau gofal cymdeithasol (Oedolion a Phlant) dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, gan drawsnewid cyflwyno gofal cymdeithasol trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.  Yr oedd y naill Ddeddf a'r llall wedi eu hasio a'u llunio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 oedd yn anelu at y nod lles '*Cymru Iachach*' a chael system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio i bawb.

Yr oedd pedwar o gynigion penodol yn y papur ymgynghori, sef:

1. Datblygu **fframwaith comisiynu cenedlaethol** fyddai'n safoni prosesau comisiynu gwasanaethau gofal gan gynnwys dull o bennu'r ffioedd a delir i ddarparwyr gofal yn y sectorau annibynnol a gwirfoddol.
2. Sefydlu **swyddfa gomisiynu gofal genedlaethol** naill ai yn Llywodraeth Cymru neu trwy sefydlu corff bychan hyd-braich.
3. Cyflwyno **Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol** yn Llywodraeth Cymru i fod yn llais cenedlaethol, proffesiynol i Weithwyr Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol.
4. Sefydlu **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau corfforaethol cyfreithiol** a chyfoethogi eu swyddogaethau fel bod PBRh yn gallu cyflogi staff yn uniongyrchol;

sicrhau atebolrwydd tryloyw o ran cyllidebau sy'n cael eu cronni a chyd-gomisiynu gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd; dal cyllidebau integredig; comisiynu iechyd a gofal yn uniongyrchol trwy gytundeb â phartneriaid lleol; sefydlu fframwaith monitro cynllunio a pherfformiad ym mhob BPRh; a bod gofyniad i adrodd i Weinidogion Cymru ar gynnydd cyflwyno ar y cyd yn erbyn eu blaenoriaethau integredig.

Yr oedd yr ymgynghoriad a osodwyd allan gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio barn am y cynigion i gyflwyno deddfwriaeth newydd i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth. Yr oedd y Dirprwy Weinidog yn ceisio barn fyddai'n cael ei ystyried wrth ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth newydd, a rhaid oedd cyflwyno ymatebion erbyn 6 Ebrill 2021 fan bellaf. Yr oedd 12 cwestiwn yn yr ymgynghoriad yn ymdrin â phob agwedd o'r cynigion. Amlinellir ymateb arfaethedig y Cyngor i'r cwestiynau yn Atodiad 1.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Pobl/Pennaeth Gwasanaethau oedolion a Chymunedol i ddweud gair.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y papur yn gam sylweddol ymlaen i gyflwyno uchelgeisiau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Y llinyn arian oedd yn rhedeg trwy hyn oedd mwy o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Yr oedd trafodaethau gyda chydweithwyr yn LIC hefyd yn dangos hyn, a hefyd eu bod eisiau clywed barn y cyhoedd. Yr oedd yn bwysig, serch hynny, deall sut yr oedd yn ffurfio'r berthynas yn y dyfodol rhwng yr awdurdodau lleol a'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol a chyda LIC ei hun. Yr oedd yn gryn gam yn y cyfeiriad hwnnw, ac yn bwysig ein bod yn cyfrannu at yr ymgynghoriad, gan mai dyma'r ail faes cyllideb mwyaf i awdurdodau lleol, ac y byddai'n cael cryn effaith ar drefniadau gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

Cododd y Cynghorydd Cockeram rai materion am yr ymgynghoriad. Cyfarfu'r grŵp polisi gwasanaethau cymdeithasol gyda'r Gweinidog, ac yr oeddent yn teimlo'n bositif am y syniad o fframwaith, a'r pot cyllido. Fodd bynnag, yr oedd yr Aelod Cabinet yn siomedig â'r Papur Gwyn. Yr oedd teimladau cymysg am hyn, ac yr oedd cadeiryddion y byrddau partneriaeth rhanbarthol hefyd yn siomedig, am eu bod yn gwneud yn arbennig o dda gyda'r ffyrdd newydd o weithio. Yr oedd yr Aelod Cabinet yn pryderu am yr effaith ar gynaliadwyedd petai'r cyllid yn lleihau. Yr oedd y papur yn un helaeth iawn, ac yr oedd llawer o bwysau ar LIC. Cafwyd cynnydd yn y boblogaeth hŷn, a chynnydd hefyd mewn dementia, a byddai angen mynd i'r afael â'r materion hyn. Holodd yr Aelod Cabinet lle'r oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn ffitio i mewn i hyn, a beth fyddai cyfraniad y Cyngor? Er hynny, yr oed dyn canmol y symudiad gan LIC i osod Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol yn LIC. Yr oedd rhai pwyntiau da yn y papur, ond yr oedd yn pryderu am ddyfodol y bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Hefyd, yr oedd y terfyn amser o 6 Ebrill yn gyfnod byr i wneud cyfiawnder â'r Papur Gwyn.

Dywedodd y Cynghorydd Truman y byddai cyfle i fynegi unrhyw farn neu bryderon yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yr oedd llawer pwynt i'w ystyried, yn benodol sut y byddai'r fframwaith cenedlaethol yn gweithredu, ac yr oedd angen eglurhad am y cynnig a roddwyd gan LIC.

Adleisiodd yr Arweinydd sylwadau ei chydweithwyr, a chytunodd fod y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, dan gyfarwyddyd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, yn gweithio'n dda, ac yng ngoleuni hyn, fe all materion llywodraethiant godi. O ystyried canlyniadau'r Papur Gwyn, yr oedd yn bwysig felly i'r Cabinet rannu eu barn gyda Llywodraeth Cymru.

<u>Penderfyniad:</u>

Fod y Cabinet yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn cytuno ar gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau o 6 Ebrill 2021.

6 **Chwarter 3 2020/21 Diweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr eitem nesaf i'r Cabinet, sef diweddariad ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor am ddiwedd Chwater Tri (31 Rhagfyr 2020).

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi'r newidiadau i Risgiau Corfforaethol y Cyngor.

Mae Polisi Rheoli Risg a Chofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor yn galluogi'r weinyddiaeth hon a'i swyddogion i fod yn effeithiol wrth nodi, rheoli a monitro'r risgiau hynny a allai atal y Cyngor rhag cyflawni ei amcanion yn y Cynllun Corfforaethol (2017-22) a chyflawni ei ddyletswyddau statudol fel awdurdod lleol.

Byddai'r adroddiad risg Chwarter Tri yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio'r Cyngor ar ddiwedd Mawrth i adolygu prosesau rheoli risg y Cyngor a'i drefniadau llywodraethiant.

Ar derfyn chwarter tri, yr oedd gan y Cyngor 52 risg wedi eu cofnodi ar draws wyth maes gwasanaeth y Cyngor. Cafodd y risgiau hynny a bennwyd fel rhai'r mwyaf arwyddocaol o ran cyflwyno Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'i wasanaethau eu codi i Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor er mwyn eu monitro.

Ar derfyn chwarter tri, cofnodwyd 18 risg ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol:
- Deg Risg Ddifrifol (15 i 25);
- Chwe Risg Fawr (7 i 14); a
- Dwy Risg Ganolig.

Cafodd un risg (Risg Pwysau ar Dai) ei chau yn chwarter tri gan iddi gael ei chyfuno gyda'r Risg Pwysau ar Ddigartrefedd (yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol). Ymateb oedd hyn i'r cysylltiad agos rhwng y ddwy ardal risg a'r camau lliniaru yr oedd y maes gwasanaeth (gan gynnwys partneriaid) yn gymryd i gefnogi teuluoedd a phobl oedd angen tai fforddiadwy a diogel yn y ddinas.

Hefyd, gwelodd chwarter tri y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddwy sgôr risg yn cynyddu, tair yn gostwng, ac yr oedd 13 risg yn dal ar yr un sgôr ag yn chwarter dau.

O ran y galw am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) (Sgôr Risg 12 i 16), cynyddodd y sgôr risg hon o 12 i 16 am i'r gwasanaeth weld nifer cynyddol o ddisgyblion gydag anghenion cymhleth yn dod i'r ysgolion oherwydd y pandemig. Yr oedd ysgolion arbennig a chanolfannau Adnoddau Dysgu cynradd yn llawn, a byddai'r grŵp gweithredu ADY yn ailymgynnull yn y gwanwyn i adolygu cyllid AAA i ysgolion.

Stad Eiddo Cyngor Casnewydd (Sgôr Risg wedi cynyddu o 8 i 12). Yr oedd partneriaid y Cyngor, Casnewydd Norse, wedi cynnal arolygon o gyflwr y stad weithredol ac wedi nodi mwy o weithiau lle'r oedd angen atgyweirio a chynnal cyflwr yr asedau.

Y cyfnod trosi wedi Brexit (Sgôr risg wedi gostwng o 16 i 12), yn dilyn cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE. Er hynny, yr oedd risgiau yn y trefniadau wedi Brexit i sicrhau y byddai dinasyddion yr UE oedd yn byw yn y DU yn gwneud cais am Statws Sefydlu yr UE erbyn y terfyn amser o 30 Mehefin.

Hefyd, yr oedd yr economi yn dal yn fregus oherwydd Covid a gweithredu'r trefniadau masnach newydd, a allai gael effaith ar sefydlogrwydd yr economi, y farchnad lafur a hyder defnyddwyr yn y tymor byr i ganol.

Lleoliadau Allsirol Addysg (Sgôr risg wedi gostwng o 12 i 9). Yr oedd y gyllideb hon yn cael ei monitro'n ofalus iawn bob mis. Comisiynwyd lleoliadau lleol ychwanegol gan Gasnewydd Fyw a Catch 22.

Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu Ysgol Bryn Derw i roi lleoliadau Cyfnod Sylfaen ychwanegol.

Pwysau Cyllid / Cost ar Ysgolion (Sgôr risg wedi gostwng o 16 i 12). Yr oedd cyfanswm cyllidebau'r sector yn awr mewn £2M o warged am i'r ysgolion fod ar gau am gyfnodau maith, Heb reolaeth ofalus ar y gyllideb, serch hynny, yr oedd risg o hyd y byddai ysgolion yn mynd i ddiffyg. Yr oedd nifer yr ysgolion oedd mewn diffyg yn dal yr un fath.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

Rhoddodd y Cynghorydd Rahman, fel Aelod Cabinet dros Asedau, beth gwybodaeth gefndir am hyn, a chyfeirio at arolwg a wnaed yn 2019 ar stad eiddo'r Cyngor, ac er i ni gael ein taro gan y pandemig, bu'r tîm yn weithredol yn ystod y cyfnod clo. Nodwyd problemau gydag adeiladau fel ysgolion ac adeiladau corfforaethol, tebyg i rai'r ganolfan hamdden. Yr oedd y Rheoliadau Adeiladu a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch wedi newid ers i lawer o'r adeiladau hyn gael eu codi: yr oedd diogelwch y trigolion o'r pwys mwyaf, ac yr oedd dewisiadau eraill yn cael eu hystyried, gyda'r risg yn cael ei lliniaru a'i rheoli trwy ddefnyddio arian o'r rhaglen gyfalaf cynnal a chadw o £1.5M y flwyddyn. Yr oedd yr Aelod Cabinet hefyd yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda thîm y stadau i gael diweddariad am unrhyw broblemau, ac yr oedd cyllid ychwanegol yn cael ei. Nid oedd yn syndod felly fod y sgôr risg eiddo wedi cynyddu, ac y mae cyllid yn cael ei geisio gan LIC gyda phartneriaid Norse. Yr oedd yn bwysig fod y cyngor yn buddsoddi'n helaeth i gynnal diogelwch ysgolion, a dyna pam y darparwyd £5M yn y gyllideb ddiweddar.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeavons at y risg o'r gwaith mawr sy'n cael ei wneud oherwydd clefyd marwolaeth ar ynn ar goed yng Nghaerllion, ac y mae Gwasanaethau'r Ddinas yn edrych ar ardaloedd eraill yng Nghasnewydd. Yr oedd y risg yn debyg ledled Cymru, ac yr oedd yn bwysig felly ymdrin â hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mayer at y maes risg gyda digideiddio. Mae'r rhaglen ddigidol wedi gwella'n sylweddol ers y pandemig, gan alluogi'r staff i weithio o gartref. Byddai risgiau seibr yn wastad yn bodoli, megis ymosodiadau 'phishing' a firysau cyfrifiaduron, ond yr oedd hyn, yn anffodus, yn anorfod. Yr oedd yn dda felly fod y risg yn goch, gan ei bod yn ein cadw'n effro i'r sefyllfa.

Yr oedd y Cynghorydd Harvey yn falch o weld y portffolio addysg yn symud o goch i oren, a diolchodd i'r Prif Swyddog Addysg am ei gwaith caled, ac i staff yr ysgolion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cockeram at sefydlogrwydd darparwyr gwasanaethau cymdeithasol, oedd yn risg bosib oherwydd bod darparwyr gofal cartref ar yr isafswm cyflog, a hyn yn arwain at drosiant staff uchel. Mae angen i LIC roi'r gwaith ar lefel fwy proffesiynol, a dylai hyn fod yn flaenoriaeth. Mae'r cyflog byw gwirioneddol hefyd, gobeithio, yn gam yn y cyfeiriad iawn. Yr oedd pwysau eraill ar y gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau oedolion; fel y crybwyllwyd yn gynharach, yr oedd pobl yn byw'n hwy, a dementia yn cynyddu. Yr oedd yn well gan drigolion oedrannus a'u teuluoedd gael pecynnau gofal cartref, ac nid oedd pethau felly yn rhad, yn gallu costio hyd at £1K yr wythnos, felly mae angen i bobl fod yn ymwybodol o'r oblygiadau cost. Mae pwysau ar gyflwyno gwasanaethau plant yn llacio oherwydd bodolaeth cartrefi fel Rose Cottage, sy'n lleihau nifer y plant sy'n cael eu cartrefu allan o'r ardal, a'u dwyn yn ôl i Gasnewydd. Yr oedd
nifer uchel hefyd yn cael eu cyfeirio oherwydd y pandemig.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod yn falch o'r gwaith yng Nghasnewydd o ran moderneiddio gwasanaethau a gwneud adeiladau yn addas at y diben yn yr 21ain Ganrif, ac yr oedd wedi

ei rhyfeddu wrth weld adnewyddu eiddo i blant yng Nghasnewydd, gan roi diogelwch cartref gwirioneddol iddynt.

Penderfyniad:

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried cynnwys cyfoesiad chwarter tri y Gofrestr Risg Gorfforaethol

7 **Diweddariad Adferiad Covid**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan ddweud mai diweddariad oedd hwn ar ymateb y Cyngor a phartneriaid i argyfwng Covid-19 trwy gefnogi'r ddinas, yn fusnesau a thrigolion, i gydymffurfio â'r cyfyngiadau presennol, a'r cynnydd gyda Nodau Adfer Strategol y Cyngor.

Aeth blwyddyn heibio ers i Gasnewydd dderbyn cadarnhad o'i achos cyntaf o Covid-19, a bu'r ddinas wedyn dan rai mathau o gyfyngiadau Covid-19.

Oherwydd hyn, mae'r Cabinet a'r Cyngor dros y flwyddyn a aeth heibio wedi wynebu llawer penderfyniad anodd, wedi gweld anwyliaid yn colli eu bywydau, a rhai o'n dinasyddion mwyaf bregus a difreintiedig yn dioddef yn sgil yr argyfwng.

Gwelodd y Cyngor hefyd bobl Casnewydd ar eu gorau, yn mynd tu hwnt i'r galw i helpu eraill yn yr argyfwng, a lawer tro, bu'r Cyngor a'n partneriaid yn cefnogi pobl a busnesau ar hyd a lled Casnewydd.

Yn ymateb y Cyngor ac wrth adfer o'r argyfwng, mae pedwar Nod Adfer Strategol sydd yn sicrhau y gallwn fod mewn sefyllfa i ymateb i anghenion ein cymunedau a'n busnesau yn awr ac yn y dyfodol, megis:

- Nod Adfer Strategol 1 – Cefnogi Addysg a Chyflogaeth;
- Nod Adfer Strategol 2 – Cefnogi'r Amgylchedd a'r Economi;
- Nod Adfer Strategol 3 – Cefnogi Iechyd a Lles Dinasyddion, a
- Nod Adfer Strategol 4 – Cefnogi Dinasyddion wedi Covid-19.

Aeth unarddeg wythnos heibio bellach (20 Rhagfyr 2020) ers i Lywodraeth Cymru roi Cymru ar gyfyngiadau lefel Rhybudd Pedwar. Bu'r misoedd diwethaf yn anodd i ni i gyd, gydag effaith ar fywyd normal megis ymweld â ffrindiau a theuluoedd, plant a phobl ifanc yn mynd i'r ysgol, colegau a phrifysgol; a busnesau heb fod yn rhai hanfodol yn gorfod cau.

Wrth i ni symud i'r gwanwyn ac i'r tywydd wella, yr oedd y Cyngor yn deall rhwystredigaeth a pharodrwydd pobl i ddychwelyd i fywyd normal. Er hynny, anogir pobl i gadw at y mesurau pellter cymdeithasol a chydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru i gadw'r gyfradd achosion mor isel ag sydd modd fel y gall y GIG adfer.

Diolchodd yr Arweinydd i Gasnewydd Fyw am eu cyfraniad gyda'r ganolfan frechu yng nghanol y ddinas.

Gyda chyflwyno'r brechiad, yr oedd dros 900,000 o bobl wedi derbyn eu dos gyntaf, ac y mae'r rhai dros 40 oed eisoes yn cael cynnig y brechiad.

Anogodd yr Arweinydd drigolion Casnewydd i fanteisio ar y brechiad, ac annog cyfeillion a theuluoedd i wneud yr un peth er mwyn dychwelyd i sefyllfa normal mor fuan ag sydd modd.

Mae Cyngor Casnewydd a'u partneriaid yn cefnogi ysgolion wrth weld plant y Cyfnod Sylfaen yn dychwelyd, a gweddill y plant cynradd yn dod yn ôl ar 15 Mawrth. Mae'n bwysig fod rhieni a gwarcheidwaid yn helpu eu hysgolion trwy gadw at reolau pellter cymdeithasol ac adrodd mor fuan ag sydd modd am unrhyw achosion Covid posib.

Mae economi Casnewydd wedi dioddef wrth i fusnesau gau, trigolion yn colli eu swyddi neu fod ar ffyrlo. Mae Cyngor Casnewydd a'u partneriaid wedi ymrwymo i gefnogi pobl i ddychwelyd i waith, ennill sgiliau a/neu ail-hyfforddi. Yr oedd y Cyngor hefyd wedi ymrwymo i gefnogi'r busnesau i ddychwelyd wrth i'r cyfyngiadau lacio, ac anogwyd pawb yng Nghasnewydd i gefnogi eu busnesau lleol.

Mae adroddiad diweddar gan Estyn ar y modd mae awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol wedi cefnogi disgyblion bregus yn ystod yr argyfwng eisoes wedi cael ei ddosbarthu. Yr oedd argymhellion yr adroddiad eisoes yn cael eu rhoi ar waith gan y Cyngor ac ysgolion Casnewydd.

Mae prosiectau economaidd mawr sydd eisoes yn digwydd yn gwneud cynnydd da, a chroesawyd y cyhoeddiad am arian Cronfa Treftadaeth y Loteri i'r Bont Gludo.

Yr oedd cynnydd yn cael ei wneud hefyd gyda phrosiectau tai a darparu tai fforddiadwy ledled y ddinas.

Mae'r Cyngor yn dal i gynnig gwasanaethau ar-lein, a lle nad yw hyn yn bosib, yn unol â chyfyngiadau pellter cymdeithasol.

Rhoddir mwy o ddiweddariad am gynnydd y Cyngor y mis nesaf.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

Adleisiodd y Cynghorydd Davies y pwyntiau allweddol a godwyd, gan ddeall ei bod yn amser hynod anodd i'r trigolion. Diolchodd yr Aelod Cabinet i bawb am gadw at egwyddorion hunan-ynysu a gweithio o gartref yn ystod y cyfnod clo. Yr oedd am bwysleisio mor anodd oedd hyn i'r economi, a bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi gwneud byd o wahaniaeth trwy roi help a chyngor. Yr oedd llwyddiannau Casnewydd yng nghyswllt y nodau adfer strategol yn gadarnhaol iawn, ac yr oedd prosiect y Farchnad Dan Do wedi dechrau, ynghyd â'r buddsoddiad yn Ninas-Ranbarth Caerdydd. Llwyddodd Casnewydd a Chonwy i gael eu dewis mewn bid diweddar am gynllun peilot i Gymru gyfan am brosiect ynni ardal leol, fel ffordd o wella'r ymdrechion i leihau carbon. Nod LIC oedd bod yn garbon niwtral erbyn 2030, a dylid canmol hyn yn y cyfnod anodd hwn.

Diolchodd y Cynghorydd Harvey i bawb yng Nghasnewydd oedd i raddau helaeth wedi cadw at y rheolau yn ystod y pandemig. Yr oedd yn bleser ganddo atgoffa cydweithwyr fod Trafnidiaeth Casnewydd yn ddiweddar wedi prynu bysus trydan, ac yr oedd Trafnidiaeth Casnewydd hefyd bellach yn Gwmni Cyfeillgar i Ddementia, gyda'r bws Cyfeillgar i Ddementia gyntaf yng Nghymru, sy'n gam yn y cyfeiriad iawn. Yr oedd yr Aelod Cabinet yn falch o gyhoeddi fod Cyngor Dinas Casnewydd a'u partneriaid yn rhoi'r trigolion yn gyntaf.

Adleisiodd y Cynghorydd Truman sylwadau ei gydweithwyr, ac yr oedd yn falch o weld yr ysbryd cymunedol a ddangoswyd gan drigolion Casnewydd yn ystod y pandemig. Diolchodd i'r swyddogion amgylcheddol a swyddogion safonau masnach am gadw Casnewydd yn ddiogel; mae holl staff Casnewydd yn haeddu eu canmol am eu gwaith caled.

Soniodd y Cynghorydd Rahman fod Casnewydd wedi dod yn bell iawn fel awdurdod ac fel cymuned, a bod yr adferiad yn galonogol. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn parhau i ddarparu gwasanaethau, a diolchwyd i holl staff y cyngor am beryglu eu bywydau a bywydau eu teuluoedd i gadw gwasanaethau Casnewydd i fynd. Yr oedd y Riverfront yn brysur ac yn fywiog, gan fanteisio ar y seilwaith a'r llwybrau teithio llesol. Crybwyllodd hefyd y 143,259 o bobl fu farw yn y pandemig: mae hyn yn cyfateb i boblogaeth Casnewydd, sy'n peri i rywun feddwl. Mae Casnewydd wedi gweithredu'n gyflym i gyfyngu effaith y pandemig ar ein cymunedau. Yr oedd grwpiau BAME hefyd yn fregus, a bu gweithredu sydyn ynf odd i arbed bywydau. Rhoddwyd cymorth gyda bywoliaeth y bobl hyn hefyd gyda grant a help gan

bartneriaid a LIC, o gymharu â chynghorau eraill. Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Arweinydd a swyddogion y cyngor, ac anogodd y trigolion i fanteisio ar y cynnig o frechiad.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at y grantiau i fusnesau sydd ar gael gan y Cyngor, a weithredodd yn gyflym i gefnogi busnesau bychain a rhai oedd newydd gychwyn, yn ogystal â busnesau mawr. Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i helpu'r busnesau hynny, ac y mae cymorth a chyfarwyddyd yn dal ar gael.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cockeram at Drafnidiaeth Casnewydd, gan ddweud y byddai gan bob gyrrwr bws fathodyn ar y bws i ddangos eu bod yn gyfeillgar i ddementia: byddant yn derbyn gwobr genedlaethol am hyn, a'r gobaith oedd y bydd dulliau cludiant cyhoeddus eraill fel tacsis yn dilyn eu hesiampl. Yr oedd yr Aelod Cabinet yn falch dros y Cynghorydd Harvey ac aelodau o fwrdd Trafnidiaeth Casnewydd.

Gobeithiai'r Arweinydd y byddai pob partneriaeth yn barod i hwyluso'r cludiant cyhoeddus gwych, o ystyried fod Llywodraeth y DU yn ystyried buddsoddi yng nghoridor De Ddwyrain Cymru.

Yr oedd y Cynghorydd Jeavons yn croesawu'r newydd cadarnhaol yn yr adroddiad, ac yn gobeithio y deuai mwy o newyddion da o du LIC ddydd Gwener ar derfyn y cyfnod tair wythnos. Diolchodd i holl aelodau'r staff yn y cyngor, ac adleisiodd sylwadau aelodau'r cabinet. Anogodd y Dirprwy Arweinydd bobl i fod yn ofalus er mwyn gostwng lefel yr heintiadau.

Soniodd y Cynghorydd Mayer am rôl yr hybiau cymunedol oedd wedi rhoi cefnogaeth wych ers y dechrau, gan gludo pecynnau bwyd. Maent wedi aeddfedu llawer fel gwasanaeth gan y cyngor, a bydd hyn yn gwella darpariaeth gyhoeddus yn y dyfodol.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn rhinwedd ei swydd wedi cyfarfod yn ddyddiol, bron, ers y pandemig gyda swyddogion a chydweithwyr. Yr oedd y clefyd enbyd hwn yn cyffwrdd pob un ohonom, a'r pandemig wedi ein taro oll mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, heb gyfle i ffarwelio yn iawn, ac yr oedd hyn yn anodd. Gan gadw hyn mewn cof, dywedodd yr Arweinydd y byddai'r cyngor yn goleuo'r Tŵr Dinesig yn felyn ar 23 Mawrth ar ddiwrnod cenedlaethol o fyfyrio a chofio ein colledion yn ystod y cyfnod hwn.

<u>Penderfyniad:</u>

I'r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma, a'r risgiau sy'n dal i gael u hwynebu gan y Cyngor.

## 8 Diweddariad Brexit

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad Brexit i'r Cabinet, sef diweddariad ar gynnydd wedi Brexit / y trefniadau masnach ers 31 Rhagfyr 2020.

Ers adroddiad diwethaf y Cabinet, aeth naw wythnos heibio ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) a'r Farchnad Sengl yn swyddogol. Dan drefniant y cytundeb masnach tariff rhydd newydd, yr oedd gofyn i fusnesau, yn fewnforwyr ac allforwyr ar y naill ochr a'r llall gydymffurfio â'r trefniadau tollau newydd.

Dywedwyd eisoes fod rhai busnesau yn cael trafferth i gwrdd â'r gofynion hyn, a chafwyd adroddiadau am fethu â chludo a/neu dderbyn nwyddau oherwydd y gwaith papur, a bod incwm yn gyffredinol wedi ei golli.

Er y rhagwelwyd y byddai peth tarfu yn y tymor byr, yn y tymor canol i'r tymor hir, yr oedd yn bwysig cefnogi busnesau er mwyn sicrhau bod hyn yn llai o faich arnynt.

Yr oedd gwytnwch economaidd Casnewydd a De Ddwyrain Cymru at y dyfodol yn hollbwysig er mwyn sicrhau y gallai busnesau cyfredol a rhai newydd ffynnu yn gynaliadwy. Fel Cyngor, yr oedd yn bwysig hefyd ein bod yn hyrwyddo 'Cynnig Casnewydd' i entrepreneuriaid cynhenid yn ogystal â busnesau byd-eang.

Byddai bod ag economi amrywiol a chynaliadwy allai roi twf cynaliadwy yn galluogi cymunedau Casnewydd nid yn unig i 'godi'r gwastad' ond hefyd i roi cyfleoedd i gymunedau ffynnu yn y tymor hir er budd cenedlaethau'r dyfodol yng Nghasnewydd.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig i'r Cabinet weithredu fel llais i Gasnewydd a gweithio gyda'u partneriaid (Dinas-Ranbarth Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Porth y Gorllewin) i sicrhau y gallai cymunedau a grwpiau mwyaf difreintiedig Casnewydd fynd at y cyfleoedd hyn i godi'r gwastad, a galluogi Casnewydd i adfer o'r pandemig.

Yr hyn oedd yn gwneud Casnewydd yn ddinas wych i fyw, gweithio ac ymweld â hi oedd ei chymunedau a'i grwpiau amrywiol. Byddai Casnewydd fel dinas yn stad yn croesawu pobl o bob cenedl, waeth beth fo'u hil, eu rhywioldeb na'u crefydd.

I ddinasyddion yr UE sydd eisoes yn byw yng Nghasnewydd, yr oedd yn bwysig iddynt hwy, aelodau eu teuluoedd a'u cyfeillion yn gwneud cais am Statws Sefydlu yr UE cyn 30 Mehefin 2021.

- Yr oedd gan Gyngor Casnewydd a Llywodraeth Cymru yr holl wybodaeth berthnasol i helpu trigolion i ymgeisio.
- Yr oedd Cyngor Casnewydd yn gweithio gyda'u partneriaid i sicrhau fod pobl yn cael eu cefnogi trwy'r broses.

Yr oedd yn dal yn bryder i Gyngor Dinas Casnewydd fod dinasyddion yr UE yn sôn am broblemau gyda'u hawliau, problemau gelyniaeth, a mynediad at arian cyhoeddus. Fel cynrychiolwyr wardiau Casnewydd, yr oedd yn bwysig fod y Cyngor yn cefnogi eu cymunedau.

Yr oedd tîm cyfathrebu Cyngor Casnewydd yn dal i rannu gwybodaeth Llywodraeth Cymru am y trefniadau masnach newydd, gofynion busnes a gwybodaeth i ddinasyddion yr UE. Yr oedd hyn yn cael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol, llythyrau newyddion i fusnesau, a gwefan y Cyngor.
Yn ystod tri mis cyntaf y trefniant newydd, ni wnaeth gwasanaethau Cyngor Casnewydd adrodd am unrhyw broblemau a/neu bryderon cychwynnol o ran cyflenwi nwyddau a gwasanaethau.
Adroddodd tîm cyllid y Cyngor (gan gynnwys Caffael) am beth cynnydd yng nghost caffael, ond mae'r cyflenwadau yn gyffredinol wedi rhedeg fel arfer.
Fel rhan o ddarbodaeth ariannol y Cyngor, yr oedd arian wrth gefn i reoli effeithiau Brexit / Covid, ac wrth i'r risg sefydlogi ymhen amser, bydd y dyraniad yn cael ei ail-flaenoriaethu.

Y mae'r Gwasanaethau Rheoleiddio yn dal i gynnig cefnogaeth i fusnesau ac y mae staff Iechyd Amgylchedd wedi cwblhau yr hyfforddiant angenrheidiol i wneud gwiriadau tystysgrifau iechyd.

Mae swyddogion Cydlynu Cymunedol y Cyngor yn dal i weithio gyda chymunedau'r UE ac i gynnig cymorth i gymunedau bregus.

Yr oedd grwpiau/elusennau lleol hefyd yn cael cyfle i gael cefnogaeth tlodi bwyd i'r sawl sydd wedi dioddef oherwydd Brexit / Covid.

Penderfyniad:

Gofyn i'r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi ymateb y Cyngor i Brexit.

9 **Rhaglen Waith**

Dyma eich adroddiad misol rheolaidd am y rhaglen waith.

Derbyn y rhaglen a gyfoeswyd.

Penderfyniad:

Fod y Cabinet yn derbyn y rhaglen a gyfoeswyd.